Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pentraeth
# Ysgol Gymuned Pentraeth
# Ynys Môn
# LL75 8UP

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Pentraeth. Mae’n cwrdd mewn ystafell hunangynhaliol yn Ysgol Gymuned Pentraeth, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae’r lleoliad yn darparu addysg am bedwar bore’r wythnos rhwng 8.50 y bore a 11.20 y bore yn ystod tymhorau’r ysgol.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru i gymryd hyd at 16 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a hanner a thair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae llawer o’r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar. Mae bron pob un o’r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy’n siarad Cymraeg fel eu mamiaith. Ar hyn o bryd, mae ychydig o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae’r lleoliad yn cyflogi tri ymarferydd cymwysedig, gan gynnwys yr arweinydd. Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2000.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Mawrth 2017. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Mehefin 2014.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol
- Cymraeg llawer o'r plant yn gwella'n gyflym ar lafar o fannau cychwyn isel
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwrtais
- yr addysgu pwrpasol yn ennyn diddordeb y plant i wella'u gwaith dyddiol yn gynhyrchiol
- defnydd yr ymarferwyr o'r Gymraeg yn bwrpasol
- ymarferwyr yn gweithio'n gydwybodol gyda'i gilydd ac yn darparu gweithgareddau difyr ar gyfer y plant y tu mewn i'r adeilad
- ymarferwyr yn cynorthwyo'r plant yn gadarnhaol ac yn creu ethos cynnes a thyner ar eu cyfer
- yr amgylchedd dysgu yn yr adeilad wedi'i drefnu'n effeithiol i dargedu diddordebau'r plant a'u sbarduno nhw i weithio'n brydlon

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth briodol yr arweinydd yn sicrhau bod yr addysgu, y defnydd o'r Gymraeg a'r dysgu'n bwrpasol
- amcanion, cynlluniau a pholisïau'r lleoliad, ar y cyfan yn canolbwyntio'n ddeallus ar sicrhau darpariaeth effeithiol
- gweithdrefnau hunanarfarnu rheolaidd yn arwain at osod targedau defnyddiol i greu gwelliannau
- ymarferwyr yn awyddus i elwa o hyfforddiant perthnasol
- yr arweinydd yn gwneud defnydd bwriadus o asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- y pwyllgor rheoli yn sicrhau cefnogaeth addas

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod asesiadau'r ymarferwyr yn arwain yn uniongyrchol at gynllunio pwrpasol, sy'n targedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn effeithiol

A2 Gwella'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant

A3 Gwella'r ddarpariaeth a'r cyfleoedd i ddysgu'n gynhyrchiol yn yr ardal allanol a'r gymuned leol

A4 Sicrhau bod yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli'n cynllunio'n strategol i ymateb i anghenion y lleoliad yn brydlon a thrylwyr

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn o fannau cychwyn sydd yn debyg i, neu'n is na'r, cyfartaledd disgwyliedig. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Mae Cymraeg llawer ohonynt yn gwella'n gyflym ar lafar o fannau cychwyn isel.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio patrymau iaith ac ymadroddion syml yn effeithiol, gydag anogaeth ymarferwyr, mewn chwarae anffurfiol a thasgau ffocws. Er enghraifft, maent yn darganfod ac adnabod anifeiliaid gwahanol a'u nodweddion amrywiol yn y tywod ac yn cyfatebu anifeiliaid â'u hepil wrth chwarae gemau bwrdd. Mae mwyafrif ohonynt yn ceisio creu brawddegau syml, wrth adeiladu ar eu hymwybyddiaeth o batrymau iaith penodol. Er enghraifft, maent yn gofyn yn gwrtais am ffrwythau a diod o amgylch y byrddau byrbryd ac yn trafod sut i rannu adnoddau yn ddeallus.

Mae llawer o'r plant yn datblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau a roddir yn Gymraeg yn llwyddiannus ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson gydag anogaeth ymarferwyr. Mae ychydig ohonynt yn ymdrechu â'r iaith yn gwbl annibynnol ar lafar gyda'i gilydd a'r oedolion. Mae bron pob un plentyn yn canu hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn frwdfrydig yn y Gymraeg.

Mae llawer o'r plant yn trin a thrafod llyfrau yn yr ardal ddarllen, fel darllenwyr cynnar, naturiol. Maent yn ymateb yn ddeallus i holi ymarferwyr wrth drafod cymeriadau a digwyddiadau mewn storïau. Wrth ymateb i gynnwys llyfrau mewn sesiynau torfol a gydag oedolion, maent yn deall diben y lluniau a phwrpas yr ysgrifennu i gyfleu'r stori. Mae llawer o'r plant yn dynwared yr ymarferwyr i'w gilydd wrth ddarllen stori gan ddeall bod gwahanol emosiynau a theimladau yn perthyn i gymeriadau unigol er enghraifft wrth iddynt adnabod yr anifeiliaid mwyaf swnllyd ar y fferm a bod golchi anifeiliaid y fferm gan y perchennog yn ddibwrpas gan eu bod nhw'n byw yn y caeau a'r mwd.

Mae llawer o'r plant yn creu marciau yn effeithiol wrth arbrofi â gwahanol gyfryngau. Maent yn dyfalbarhau â phrofiadau ysgrifennu cynnar yn bwrpasol ac yn defnyddio creonau i sgriblo a phaent i bortreadu blodau yn yr ardal allanol. Mae ychydig o'r plant yn ymdrechu'n synhwyrol i nodi archeb cwsmeriaid ar bapur yn y siop fferm chwarae rôl. Mae llawer o'r plant yn arbrofi gyda'u bysedd mewn gwahanol gyfryngau gwlyb ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio sialc ar y wal a phensiliau ar bapur i ymarfer llythrennau eu henwau'n llwyddiannus. Yn ogystal, mae llawer o'r plant yn adnabod eu henwau eu hunain ac eraill yn gywir wrth hunangofrestru a gosod matiau bwrdd ar y byrddau byrbryd.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cymharu gwerth darnau gwahanol o arian yn y siop wrth brynu llysiau ac adeiladu tyrrau gyda siapiau tri dimensiwn yn hyderus. Mae mwyafrif o'r plant yn

cyfri rhifau i 10 yn annibynnol. Mae lleiafrif ohonynt yn adnabod, enwi a chyfrif i 10 a thu hwnt yn gywir, wrth ddidoli siapiau a gwrthrychau fel anifeiliaid a cheir. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall gwahaniaethau mewn maint wrth archwilio yn yr ardal allanol a'r ardal goed ar dir yr ysgol am ddail, brigau a thrychfilod. Maent yn esbonio'n llwyddiannus y gwrthrychau 'mawr', 'bach' a 'chanolig', os yw'r gwrthrychau'n 'drwm', neu'n 'ysgafn', ac os yw eu bwcedi'n 'wag' neu'n 'llawn'.

Nid yw'r plant yn defnyddio cyfarpar TGCh yn ddigon pwrpasol. O ganlyniad, mae eu defnydd o feddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau meddwl yn ddigonol.

Mae llawer o'r plant yn dewis offer a deunyddiau'n effeithiol i ddatrys problemau ymarferol i ddatblygu eu medrau ymchwiliol a'u creadigrwydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio stampiau i gyfatebu anifail ar bapur â synau'r fferm, adeiladu trac i yrru trenau a defnyddio gefeiliau i ddarganfod rhifau yn y reis. Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda pan fyddant yn rhedeg a dawnsio yn neuadd yr ysgol yn achlysurol, rhedeg rasys yn yr ardal allanol a gyrru beiciau a cherbydau ar fuarth yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n dda ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad. Maent yn dangos diddordeb a dyfalbarhad yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canolbwyntio â chymhelliant yn ystod gweithgareddau annibynnol a thasgau ffocws. Maent yn mwynhau'r gweithgareddau ym mhob maes dysgu ac mae llawer o'r plant yn rhannu a gweithio'n ddiwyd gyda phlant eraill. Mae llawer o'r plant yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at brofiadau newydd. Er enghraifft, maent yn frwdfrydig iawn wrth ysgwyd parasiwt gyda'i gilydd yn fywiog a godro maneg rwber yn yr ardal allanol i gynrychioli cadair y fuwch.

Mae llawer o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac yn gweithio'n annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dewis yn feddylgar pa feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau. Maent yn esbonio'n synhwyrol pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt ac ym mha ran o'r adeilad neu'r ardal allanol y dymunant weithio. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dechrau mynegi eu barnau a'u hoffterau personol yn effeithiol.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn ymddwyn yn gyfrifol ac maent yn gwrtais. Maent yn dangos parch wrth ymateb i oedolion a'i gilydd. Mae rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n synhwyrol ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn brwsio eu dannedd gyda'i gilydd a phan fyddant yn eistedd yn eu tro i fwyta byrbrydau. Mae bron pob un o'r plant yn golchi eu dwylo'n drylwyr a heb lawer o anogaeth gan ymarferwyr ar ôl defnyddio'r toiled a chwarae anniben. Mae hyn yn dangos eu dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd glendid i gefnogi bywydau iach.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau hyblyg a diddorol, sy'n cymell y plant i ddysgu'n effeithiol trwy dasgau ymarferol a chreadigol. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, creadigol a chorfforol y plant.

Mae'r gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ar draws y lleoliad, fel yn siop y fferm a'r ardal gartref. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cymell y plant i berfformio ar eu gorau'n gyson. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn ysgogi'r plant i ddilyn siapiau anifeiliaid â phensiliau a chofnodi bod llaeth a chig eidion yn perthyn i'r fuwch, cig oen a gwlân i ddefaid, selsig, bacwn a phorc i fochyn a chyw iâr a wyau i ieir.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn effeithiol. Maent yn galluogi'r plant i archwilio ac arbrofi wrth yrru beiciau yn yr awyr agored a gwisgo fel cymeriadau gwahanol fel tywysoges ac adeiladwr.

Ar y cyfan, mae'r gweithgareddau'n ennyn diddordeb y plant yn bwrpasol. Fodd bynnag, er bod y cynllunio cynnil yn weithredol, nid yw'n ystyried anghenion plant unigol yn ddigon manwl i dargedu'r camau nesaf yn eu dysgu'n effeithiol. Nid yw'r cynllunio yn diffinio'n ddigon clir y bwriadau dysgu a diben y tasgau ffocws i herio'r plant ymhellach. Er bod ystod o wahanol dasgau diddorol yn bodoli, nid yw'r ymarferwyr yn arfarnu effaith y gweithgareddau ar ddeilliannau plant yn ddigon trwyadl. O ganlyniad, nid yw ymarferwyr bob tro'n sicrhau'r cynnydd mwyaf yn nysgu'r plant trwy gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r Gymraeg yn dda iawn. Maent yn gyson, naturiol a chywir gyda'r plant. Maent yn annog y plant i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag y bo modd trwy ganu caneuon, ailadrodd rhigymau, rhifo ac ymateb ag ymadroddion cyfarwydd. Mae hyn yn gwella iaith lafar y plant mewn amser byr. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymreig yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddefnyddio camerâu, tiliau a theganau electronig. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon bwriadus er mwyn datblygu medrau'r plant yn ddigon effeithiol ar draws yr ardaloedd dysgu gydag adnoddau parod a defnyddiol.

Nid yw'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn effeithiol. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd ar gael i'r plant i ddysgu'n gynhyrchiol yn y gymuned leol ac am rolau pobl yn eu milltir sgwâr.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y cyfnod sylfaen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n bwrpasol i greu awyrgylch dysgu da ar gyfer y plant. Maent yn dathlu cryfderau'r plant ac yn eu

cefnogi'n gyson wrth iddynt ddysgu a defnyddio medrau newydd. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r gweithgareddau amrywiol a osodir i grwpiau ymchwilio i nodweddion anifeiliaid a llysiau'r fferm.

Mae'r ymarferwyr yn annog plant i symud yn rhydd rhwng gwahanol ardaloedd dysgu, pan fyddant dan do neu yn yr awyr agored. Maent yn annog plant i gydweithio â phlant eraill yn effeithiol yn ystod tasgau llythrennedd a rhifedd mewn amrywiaeth o ardaloedd dysgu. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn chwarae'r plant, gan ysgogi a chymell y plant i esbonio'u dealltwriaeth yn effeithiol. Maent yn croesawu'r plant yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, ac maent yn parhau â'r dull cynnes hwn trwy gydol y sesiynau. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn gadarnhaol ac yn ddiogel. Mae hyn yn annog cyfranogiad a mwynhad plant ym mhob math o weithgaredd yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio holi yn bwrpasol i ddatblygu medrau meddwl y plant a'u parodrwydd i wneud penderfyniadau i ddatrys problemau yn llwyddiannus. Mae hyn yn amlwg pan fydd plant yn gosod y bwrdd yn y gegin gan ddefnyddio llestri ac yn cyfatebu rhifau i gyfarpar mathemategol.

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi asesiadau dyddiol yn briodol gan ddefnyddio llyfrynnau cofnodi'r awdurdod lleol. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith yn ystod tasgau. Mae'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ddefnyddiol o'r hyn y gall y plant ei wneud dros amser. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio asesiadau dyddiol yn ddigon cyson i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn drylwyr, wrth gynllunio'r ffordd ymlaen i unigolion.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am gyflawniadau eu plant ar ddiwedd y sesiynau. Pan fyddant yn gadael y lleoliad i fynd i'r ysgol, mae'r ymarferwyr yn cyflwyno cofnod defnyddiol o gynnydd y plant i'r athrawon. Yn ogystal maent yn darparu enghreifftiau o waith y plant i'r rhieni a'r gofalwyr. Mae'r rhain wedi'u seilio ar sylwadau dyddiol dros gyfnod ac yn dangos cyflawniadau'r plant a'u cynnydd yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn defnyddio sesiynau grŵp yn effeithiol i annog plant i ganolbwyntio ar deimladau ei gilydd, i ymateb yn y Gymraeg a gweithredu'n gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys galluogi iddynt siarad yn eu tro a rhannu offer a bwyd yn synhwyrol yn ystod amseroedd byrbryd. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn hyrwyddo gwerthoedd fel tegwch, parch a chydweithrediad yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn creu cyfleoedd gwerthfawr i blant weddïo a dweud diolch yn ddyddiol. Mae hyn yn ategu awyrgylch o fyfyrdod wrth i blant eistedd i wrando ar oedolion, golchi eu dwylo a gwisgo ffedogau. Trwy wneud hynny, mae plant yn cymryd eu tro'n gwrtais wrth fwyta byrbrydau a rhannu diod o gwmpas y byrddau bwyd. Yn ogystal, maent yn defnyddio arferion doeth fel 'helpwr y dydd' i hyrwyddo annibyniaeth a chyfrifoldeb ymysg y plant.

Mae trefniadau defnyddiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae trefniadau fel bwyta byrbryd iachus a chwarae'n fywiog yn yr ardal allanol yn cefnogi dysgu'r plant yn effeithiol. Mae'n cyfrannu'n synhwyrol at eu dealltwriaeth bod cadw'n iach a heini yn bwysig. O ganlyniad, mae gan y lleoliad drefniadau effeithlon i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae heriau corfforol yn yr ardal awyr agored ac ar gyfarpar anturus yr ysgol yn annog plant i ddeall bod ymarfer corff yn cyfrannu'n bwrpasol at ffordd iach o fyw. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cerdyn, nwyddau plastig a bwyd. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynaliadwyedd yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn gofalu'n wyliadwrus am blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn fwriadus. Maent yn sicrhau bod y plant yn teimlo'n hapus a diogel yn eu cwmni trwy drafodaethau synhwyrol a chymdeithasol. O ganlyniad, mae'r plant yn gofyn yn aml i ymarferwyr am gymorth a chefnogaeth, i wella'u gwaith ac ymestyn eu profiadau.

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi mannau cychwyn y plant yn gywir pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen a gweithdrefnau'r awdurdod lleol. Maent yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd ac yn nodi a chynorthwyo'r plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Gyda chymorth yr ysgol a'r awdurdod lleol, mae'r ymarferwyr yn gweithio gydag asiantaethau defnyddiol yn fwriadus. Mae hyn yn sicrhau cymorth cyfredol a darpariaeth werthfawr ar gyfer y dyfodol i blant ag anghenion ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol trwy weithgareddau dyddiol sefydledig ac agweddau synhwyrol tuag at ein gwahaniaethau a'n tebygrwydd fel hil ddynol. O ganlyniad, mae pawb yn cydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus. Mae'r lleoliad yn cyflawni hyn yn weithredol trwy ddathlu gwahanol wyliau fel y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a bywydau gwahanol blant o bob cwr o'r byd. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i chwarae â doliau o wahanol gefndiroedd ethnig yn effeithiol.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o anghenion y plant ac maent yn cydnabod eu hunigoliaeth yn synhwyrol. Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol ble caiff pob plentyn yr un cyfle i elwa ar yr holl feysydd dysgu ac offer, y tu mewn i'r adeilad ac yn yr awyr agored. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar gynnal amgylchedd gofalgar yn llwyddiannus.

Mae'r amgylchedd dysgu dan do yn lân ac mae'r ystafell mewn cyflwr da ac wedi'i chynnal yn gydwybodol. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r ardaloedd dysgu'n synhwyrol i greu amgylchedd dysgu dan do sy'n ddifyr a diddorol. Maent yn annog y plant i symud o un ardal ddysgu i'r llall heb lawer o anogaeth, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddarparu amrywiaeth o brofiadau ymarferol iddynt.

Mae'r defnydd o'r ardal allanol ar gyfer gweithgareddau bywiog, fel gyrru beiciau ar fuarth yr ysgol, yn dda ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant. Mae'r lleoliad yn cael rhyddid i ddefnyddio'r ardal allanol fel y mynnent gan yr ysgol. Mae gan yr

arweinydd a’r pwyllgor rheoli gynlluniau datblygu ar gyfer gwella’r ardal allanol benodedig ar gyfer y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw’r defnydd presennol o’r ardal allanol yn sicrhau digon o gyfleoedd i’r plant ddatblygu eu holl fedrau yn gyson a rheolaidd yn yr awyr agored.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae’r arweinydd yn brofiadol ac yn arwain y lleoliad yn gydwybodol. Mae ganddi weledigaeth briodol sy’n sicrhau bod yr addysgu, y defnydd o’r Gymraeg a’r dysgu yn effeithiol. Mae cydweithrediad buddiol yn bodoli rhwng yr arweinydd a’r holl ymarferwyr. Ar y cyd, maent yn llywio cyfeiriad boddhaol ar gyfer y lleoliad. Maent yn cynnal arferion cadarn ym mhob sesiwn, fel glynu at amserlen benodol a threfnu ardaloedd dysgu deniadol yn yr adeilad. Mae systemau rheolaethol yr arweinydd yn addas ac yn cynnal gwelliannau synhwyrol. Er enghraifft, maent wedi datblygu gwell ddarpariaeth yn yr ardaloedd chwarae rôl a chyfleoedd da i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant.

Ar y cyfan, mae amcanion, cynlluniau a pholisïau’r lleoliad yn canolbwyntio’n ddeallus ar sicrhau darpariaeth effeithiol. Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr ymroddgar yn deg a thyner wrth ddelio â phlant. Mae ganddynt ddisgwyliadau cadarn o bob un plentyn ynglŷn â’u hymddygiad a’u parodrwydd i weithio a chyflawni’n gyson. Maent yn llwyddo i’w cymell tuag at welliannau mewn ffyrdd cadarnhaol, synhwyrol a chefnogol. O ganlyniad, mae’r arferion hyn yn bodloni anghenion plant ac yn hyrwyddo eu cyflawniadau’n bwrpasol.

Mae’r arweinydd yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i sicrhau gwelliannau i’r ddarpariaeth. Yn ddiweddar, mae hyn yn cynnwys datblygu arferion asesu, trwy ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen a gweithdrefnau’r awdurdod lleol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes cynnydd effeithiol yn bodoli ynglŷn â gwelliannau yn erbyn y rhan fwyaf o’r argymhellion o’r arolygiad diwethaf gan Estyn. O ganlyniad, nid yw’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n cynllunio’n strategol i ymateb i anghenion y lleoliad yn ddigon prydlon a thrylwyr.

Mae’r arweinydd yn canolbwyntio’n dda ar flaenoriaethau cenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd. Mae’r arweinydd newydd ddechrau targedu gwell ddarpariaeth o adnoddau TGCh safonol a defnyddiol i wella medrau technolegol y plant.

Mae’r arweinyddiaeth, sy’n cynnwys pwyllgor rheoli, yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y plant yn ddiddorol a phwrpasol. Er mai pwyllgor bach sy’n bodoli, maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu rolau’n llawn ac yn gweithio’n ddiwyd fel tîm. Mae’r gweithdrefnau hyn yn sicrhau bod diffiniad clir o gyfrifoldebau gan yr ymarferwyr. Fodd bynnag, mae’r arferion goruchwylio a gwerthuso’r ddarpariaeth yn rheolaidd yn anghyson ar hyn o bryd. Nid ydynt yn ddigon trwyadl i sicrhau bod y cyfleoedd i ddatblygu’n broffesiynol trwy werthusiadau blynyddol defnyddiol yn gwbl weithredol ac effeithiol.

Mae'r pwyllgor rheoli'n derbyn gwybodaeth am arferion y lleoliad yn achlysurol gan yr arweinydd. Maent yn cyfarfod i drefnu gweithgareddau weithiau. O ganlyniad, nid yw'r pwyllgor rheoli'n herio'r lleoliad yn bwrpasol fel ffrindiau beirniadol. Nid ydynt yn adeiladu ar arferion sefydlog i dargedu'r meysydd y mae angen eu gwella ymhellach.

## Gwella ansawdd: Da

Mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu a gwelliannau cyson yn safonau a lles y plant yn treiddio trwy waith y lleoliad. Mae'r arweinydd, dan arweiniad yr awdurdod lleol, wedi sefydlu trefniadau trylwyr i fonitro deilliannau'r plant, y ddarpariaeth a'i rôl hi. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn ystyried barnau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn synhwyrol.

Trwy gydweithio pwrpasol, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn flynyddol trwy weithdrefnau meintiol yr awdurdod lleol, yn cyfrannu'n effeithiol at yr arferion hyn. Mae'r meysydd i'w gwella yn cael eu nodi'n briodol ac, o ganlyniad, mae'r lleoliad yn gwneud gwelliannau ystyrlon dros amser fel creu ardaloedd i ddatblygu'r medrau llythrennedd a rhifedd y plant. O ganlyniad, mae cynllun datblygu'r lleoliad yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hunanarfarnu.

Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu gwariant yn ddefnyddiol, yn unol â'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer gwella. Mae hi'n cytuno ar y targedau gyda'r ymarferwyr eraill ac maent yn gweithredu'r newidiadau'n bwrpasol ar y cyd. Maent yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu'n rheolaidd ar eu cyngor er lles y plant. Mae hyn yn arwain at welliannau buddiol, fel defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i osod mannau cychwyn defnyddiol ar gyfer y plant.

## Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r lleoliad yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid i wella safonau a lles y plant ynghyd â'r addysgu a gofal y plant. Mae cydweithrediad synhwyrol yn bodoli gydag asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae'r berthynas gadarnhaol hon yn atgyfnerthu gwaith y lleoliad ac yn cefnogi'n weithredol gyda hyfforddiant a dogfennaeth reolaethol bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad, sy'n cynnwys defnydd da o gyfryngau cymdeithasol. Maent hefyd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad trwy holiaduron a thrafodaethau cyson.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ei gysylltiadau llewyrchus â'r ysgol i gefnogi dysgu'r plant. Mae hyn yn cynnwys defnyddio adnoddau'r ysgol a derbyn cyngor defnyddiol gan y pennaeth ac athrawes gyswllt yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth, wrth i'r plant ddechrau ac ymgartrefu yn yr ysgol, yn dda ac wedi eu sefydlu'n gadarn.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio a chysylltu ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig at wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant fel cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd a hyfforddiant diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn anelu'n gyson tuag at wella gwaith dyddiol y lleoliad trwy reoli staff ac adnoddau'n effeithlon. Mae hi wedi llwyddo i sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys gyda hyfforddiant priodol i gefnogi anghenion y plant.

Mae'r gweithdrefnau i wella'r lleoliad yn effeithiol. Maent yn arwain at ofal gwyliadwrus, amgylchedd mewnol diddorol ac addysgu cadarn, sy'n effeithio ar ddeilliannau'r plant yn bwrpasol. Yn ogystal, maent yn galluogi ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus, fel gwella'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn yr ardaloedd dysgu. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu sefydlog.

Mae'r lleoliad yn rheoli adnoddau'n ddoeth i gefnogi'r dysgu, fel newid yr ardaloedd chwarae rôl yn aml i sbarduno'r plant a defnyddio adnoddau'r ysgol yn synhwyrol. O ganlyniad, maent yn creu gwelliannau priodol trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella'n foddhaol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth o ran adnoddau TGCh a'r ardal allanol heb ddatblygu'n effeithiol.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod y defnydd o arian yn cael effaith uniongyrchol ar safonau a lles y plant ynghyd â'r ddarpariaeth. Yn gyffredinol, maent yn blaenoriaethu gwariant yn briodol, gan nodi cyfrifoldebau synhwyrol a llinynnau amser priodol yn erbyn targedau yn y cynllun datblygu.

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth ac effaith yr arweinyddiaeth ar wella'r addysgu, y gofal a deilliannau'r plant, yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |